



Bore Sul Mai 5ed, 2019



Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma. Pentrefi Creigiau a Groesfaen sydd yn arwain yr oedfa. Sian Elin sy'n cyfeilio.

**Yr Wythnosau Nesaf
Mai 12ed Sul Cymorth
Cristnogol: Pwyllgor Cyfiawnder
Cymdeithasol**

**Mai 19eg Sul Teuluol gyda Lyn
a Mike West a Gwilym a Beti**

**Mai 26 Gethin Rhys, gyda
Keith Rowlands yn llywyddu
Mehfin 2il Sul Pentrefi
Llantrisant, Llanharan a Meisgyn**

**Mehfin 9ed Aled Edwards
gyda Gwerfyl Morse yn
llywyddu**

**Diolch yn fawr i bawb a fu'n
gymorth adeg angladd Bryn
Davies ddydd Gwener.**

Bwrdd y Cyfarwyddwyr
Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd
nos Fawrth 7 Mai. Os oes gennych
adroddiad i'w gyflwyno neu fater
i'w godi yn y cyfarfod yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd, Gwilym
Huws

(gehpengwern@yahoo.co.uk /
01443 225205 / 07710 237327)
erbyn dydd Llun 6 Mai.

CASGLIADAU DILLAD A NWDYDDAU

**Mae'r casgliadau ar gyfer Adref,
Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn
weithredol eleni. Diolch yn fawr
iawn i chi i gyd am eich
cyfraniadau cyson i'r elusennau
allweddol yma.**

ELUSENNAU 2019

Dyma'r elusennau y byddwn yn eu
cefnogi drwy gasgliad yr amlenni
brown eleni:

Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon
Taf, Adref, Ysgol Tŷ Coch
Cymorth i Ferched Cymru &
CRICA. Mae pedair o'r rhain yn
lleol ac yn gwerthfawrogi ein
cefnogaeth gyson. Mae CRICA yn
ymchwilio i Glefyd Crohn ac yn
cefnogi plant a phobl ifanc sy'n
dioddef o'r cyflwr.

**CYFAMOD EGLWYSIG Y
TABERNACL: 'Rydym yn
gymuned o bobl sydd wedi
ymrwymo yn wirfoddol i geisio
tyfu gyda'n gilydd mewn
dealltwriaeth a gallu i ymarfer
dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu.**

Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

Estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau eglwysi a chapeli Cymraeg Caerdydd a'r cylch i fynychu Darlith Goffa Gethin Abraham-Williams 2019 sydd i'w chynnal yn Neuadd y Senedd, Bae Caerdydd am 7yh dydd Llun 20fed o Fai 2019. Bydd Aled Edwards yn darlithio eleni ar **'Ffydd, Datganoli a Gwleidyddiaeth Fyd-eang.'** Bydd Cytûn yn nodi 20 mlynedd o gydweithio rhwng cymunedau ffydd a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com
neu decstio Caroline ar
07539452130

Merched y Wawr Tonysguboriau a Merched y Tabernacl ar y cyd Gwahoddiad agored i'r Tabernacl ar Fai 22ain am 7.30 i glywed Gwenno Rees yn son am ei blwyddyn ym Mhatagonia. Croeso i bawb.

APÊL

Mae criw bychan o wirfoddolwyr wedi bod wrthi'n llafurio yn y fynwent a'r rhandiroedd bob bore lau ers misoedd lawer er mwyn clirio'r gordyfiant. Bellach mae'r gwaith ardderchog a gyflawnwyd ganddynt yn tynnu tua'i derfyn. Ond wedi treulio'r holl amser wrth y gwaith mae'r llafurwyr yn y maes yn dechrau diffygio ac yn erfyn yn daer am ragor o wirfoddolwyr i ymuno gyda nhw am awr neu ddwy ar foreuau lau er mwyn cwblhau'r gwaith dros yr wythnosau nesaf.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch gydag un o'r canlynol: Emlyn 'Pens' Jones; Edwyn Evans neu Mike West. Diolch.

Cyfundeb Dwyrain Morgannwg
Cynhelir taith *Heddwch yn y Ddinas* dan arweiniad Jon Gower am 11 bore Sadwrn 18 Mai. Taith gerdded hamddenol o amgylch canol Caerdydd fydd y daith hon gyda chyfle am baned a gorffwys. Man cychwyn: Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd CF10 3AP. Rhowch wybod i Gwilym (gehpengwern@yahoo.co.uk) neu Emlyn (emlyn.pentyrch@btinternet.com) os ydych am ddod ar y daith cyn gynted a phosib